WHC/2022/004

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2022**

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl:** Canllawiau ar gyfer gofalu am blant a phobl ifanc gyda phroblemau ymataliaeth

**Dyddiad dod i ben / Adolygu: Awst 2025**

**I'w weithredu gan:**
Cadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol
Ysgrifenyddion Bwrdd y Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Meddygol y Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Nyrsio y Byrddau Iechyd Lleol

**I'w weithredu gan Lywodraeth Cymru (neu er gwybodaeth):**
Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Proffesiynol a Pholisi
Tîm Gweithrediadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Cyfathrebu'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Digidol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Cyflawni a Chyllid yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cydwasanaethau GIG Cymru

**Angen gweithredu erbyn: Hydref 2022**

**Anfonir gan:** Sue Tranka – y Prif Swyddog Nyrsio

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :**

Richard Desir: Cyfarwyddiaeth Nyrsio – OCNOmailbox@wales.gsi.gov.uk - 03000 258918

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi canllawiau i fyrddau iechyd yn ymwneud â darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

2. Mae Llwybr Gofal a Chanllawiau Ymataliaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan wedi'i ddiweddaru yn 2021

3. Mae fersiwn newydd y 'Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth i blant a phobl ifanc' yn disodli'r canllawiau blaenorol.

4. Mae galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni ymataliaeth yn hanfodol bwysig. Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cefnogaeth i gyflawni eu llawn botensial o ran ymataliaeth.

5. Dylid darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth ar ôl asesiad llawn yn unig, a dim ond pan nad yw'n bosibl hyfforddi i ddefnyddio'r toiled.

6. Mae'n hanfodol bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad o'r gallu i hyfforddi i ddefnyddio'r toiled a'r asesiad ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth priodol i blant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu hyfforddi i ddefnyddio'r toiled, neu sy'n dioddef anymataliaeth ysgarthol a/neu wrinol, wedi'u hyfforddi'n ddigonol, yn brofiadol ac yn gymwys i wneud hynny.

7. Mae Llwybr Gofal a Chanllawiau Ymataliaeth Plant a Phobl Ifanc cyfredol Cymru Gyfan yn cynnwys y datganiad *'Uchafswm nifer y cynhyrchion a roddir yw pedwar pad am bob 24 awr'.* Mae'r canllawiau newydd yn rhoi sylw i hyn ac yn cynnwys y datganiad '**Fel arfer ni fydd** nifer y cynhyrchion a roddir am bob 24 awr yn fwy na phedwar, ond dylai'r ddarpariaeth gwrdd â'r anghenion a aseswyd'. Dylai'r anghenion clinigol gael eu hasesu gan weithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi mewn gofal ymataliaeth.

8. Mae'r canllawiau newydd hefyd yn cynnwys y cynnydd newydd mewn oedran (h.y. 5 oed) ar gyfer cael mynediad i'r ddarpariaeth cynhyrchion.

9. Yng Nghymru, does dim gofyniad statudol i ddarparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth, felly mae pob Bwrdd Iechyd wedi datblygu eu polisïau a'u canllawiau eu hunain. O ganlyniad, mae'r ddogfen gysylltiedig yn ceisio amlinellu'r canllawiau cenedlaethol i atal amrywiad a lleihau anghysondeb.

10. Mae Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan wedi gwneud gwaith i adolygu Llwybr Gofal a Chanllawiau Ymataliaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan ac wedi argymell y dylid disodli'r canllawiau presennol gyda'r 'Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth i blant a phobl ifanc' (2021) sydd newydd ei gyhoeddi, gan ddileu'r anghysondeb yn y canllawiau gwreiddiol.

11. Mae'r *'Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth i blant a phobl ifanc'* 2021 yn ddogfen gonsensws sydd wedi'i datblygu a'i chefnogi gan amryw o sefydliadau ar draws y DU sydd i'w gweld yn y ddogfen.

12. Cafodd y Canllawiau eu hadolygu yn 2021 ar gyfer cyrff GIG Lloegr ac maent bellach yn cael eu haddasu ar gyfer eu defnyddio yn GIG Cymru.